

Yr Wyddfa: mynydd byw



Yr Wyddfa: mwy na chopa Snowdon: more than a summit

Mae'r Wyddfa yn arbennig. Yn 3,560 troedfedd, neu 1,085 metr, dyma'r copa uchaf i'r de o Ucheldir yr Alban ac mae 600,000 o gerddwyr yn dod draw bob blwyddyn.

Ond, wrth ruthro am gopa'r Wyddfa, a ydym ni'n methu rhywbeth? Is law'r copa enwog yma, pwy sy'n sylwi ar y planhigion ac anifeiliaid prin a rhyfeddol? Pwy sy'n gwybod am eu cynefinoedd sy'n cael eu gwarchod?

Mae bywyd gwyllt yr Wyddfa yn cysylltu'r mynydd nodedig hwn gyda'r Alpau a'r Arctig. Mae byd natur yn cysylltu'r Wyddfa heddiw gyda'i gorffennol ac yn gofyn i bob un ohonom ystyried ei dyfodol. Felly dyma gyfle i ddysgu ambell i beth a gwneud yn fawr o'ch ymweliad â'r Wyddfa.

Snowdon is special. At 3,560ft or 1,085m, it's the biggest thing south of the Highlands and is visited by over 600,000 walkers per year.

But in the rush to Snowdon's summit, are we overlooking something? Beneath that famous peak, who notices the rare and remarkable plants and animals? Who knows about their protected habitats?

Snowdon's wildlife connects this great mountain to the Alps and the Arctic. Nature links Snowdon today with its past and asks us all to contemplate its future. So gather some insights and make the most of your visit to Snowdon.

Creigiau'r Wyddfa

Meddyliwch am losgfynyddoedd a môr bas, cynnes ac ychwanegwch filiynau o flynyddoedd o greu mynyddoedd egniol. Ar un adeg roedd mynyddoedd Eryri yn enfawr – yn debyg i'r Alpau fel y maen nhw'n edrych heddiw.

Gyda threigl amser mae'r gwynt, y glaw a rhewlifoedd wedi erydu'r copaon enfawr i greu llwch a ffurfiodd bridd yr iseldir yn y pen draw.

Y canlyniad yw'r Wyddfa fel y mae heddiw. Ei sail yw'r creigiau sy'n ymddangos fel pe baen nhw wedi newid dim ond eto sydd wedi newid erioed – llinell amser ddaearogol o ffosiliau, llechi, cwarts a mwy.

Blaenoriaethau Uchel

Mae'r mynyddoedd o gwmpas yr Wyddfa yn cynnal cymysgedd arbennig o gynefinoedd a rhywogaethau.

A wyddoch chi? Mae'r Wyddfa yn Warchodfa Natur Genedlaethol; fe'i dynodwyd ar 26 Ebrill 1966. Mae rhai o'r planhigion arbennig sydd wedi goroesi yma ers Oes yr Iâ bellach yn cael eu bygwth gan newid hinsawdd.

Heddiw, mae angen ymwelwyr cyrifol sy'n ei barchu ar y mynydd byw hwn. Os byddwn yn dod yn fwy ymwybodol, bydd yr Wyddfa yn ein gwobrwyo gyda phrofiad bythgofiadwy.



High Priorities

The mountains that make up the Snowdon massif contain a special mix of habitats and species.

Did you know? Snowdon is a National Nature Reserve, awarded NNR status on 26 April 1966. Some of the special plants that have survived here since the Ice Age are now threatened by climate change.

Today, respect and responsible visitors are what this living mountain needs. If we sharpen our senses Snowdon will reward us with an experience to remember forever.

Rydych yn debygol o weld...

You're likely to see...



Gweirlöyn bach y waun
Small heath



Corhedydd y waun
Meadow pipit



Cigfran
Raven



Rhodynên bêr y mynydd
Lemon-scented fern

...Trowch y dudalen i gyfarfod planhigion ac anifeiliaid eraill sy'n cartrefu yma.

...Turn over to meet the other plants and animals that call this home.

Bywyd newydd i'r creigiau

Wedi i'r rhewlifoedd olaf grebachu bu'n rhaid i'r planhigion arloesol cyntaf fod yn arbennig o wydn. Mwsoglau, cennau a ffwng ddaeth yma'n gyntaf, gan grafu byw ar greigiau moel. Wrth iddyn nhw sefydlu, cronnodd y mater organig a ffurfiwyd ganddyn nhw i greu'r pridd cyntaf.

Roedd y pocedi bychain o bridd yn caniatáu i redyn, yna planhigion blodeuol, sefydlu. Edrychwch o'ch cwmpas ar yr arwynebedd enfawr o greigiau, clogwyni a sgrî ar yr Wyddfa heddiw – rydych yn cael cipolwg dros gyfnod o amser ar gynefinoedd arloesol 10,000 o flynyddoedd yn ôl. Y mwsoglau a'r cennau bach rhyfeddol yma oedd yr arloeswyr cyntaf i ymsefydlu ar yr Wyddfa.

Stone Sparks Life

After the last glaciers retreated the first pioneer plants had to be super tough. Mosses, lichens and fungi made the first moves, eking out an extreme life on bare rock. As they established, the organic matter they formed slowly accumulated to form the very first fragments of soil.

Tiny pockets of soil allowed ferns and then flowering plants to colonise. Look around at the great expanses of rock, cliffs and scree on Snowdon today - you are getting a glimpse back through time to the cutting edge habitats of 10,000 years ago. These extraordinary little mosses and lichens were the pioneers who gained the first footholds on Snowdon.

Snowdon Rocks

Take some volcanoes and a warm, shallow sea and add millions of years of vigorous mountain-building. Once the mountains of Snowdonia were immense - a match for the Alps as they are today.

Over time erosion by wind, rain and glaciers ground down those mighty peaks to make dust that eventually formed the soils of the lowlands.

The result is Snowdon as we see it today. Its foundations are the rocks that seem unchanging yet have always changed - a geological timeline of fossil, slate, quartz and more.

Yn hoffi yr hyn rydych yn ei weld?
Cefnogwch waith arwrol Cymdeithas Eryri, fel rhan o Bartneriaeth yr Wyddfa i helpu i warchod yr Wyddfa.

Gweithredwch / Ymaelodwch / Cyfrannwch

www.cymdeithas-eryri.org.uk

Like what you see? Support Cymdeithas Eryri's heroic work as part of the Snowdon Partnership to help look after Snowdon.

Take action / Join / Donate

www.snowdonia-society.org.uk

Yr Wyddfa: mynd i wraidd ei hanes

Wrth chwilio am 'Fywyd Gwyllt yr Wyddfa' ar-lein ewch chi ddim yn bell iawn. Byddai'n hawdd cael yr argraff bod geifr lled-wyllt ym mhob twll a chornel a'u bod yn gwledda ar garped o frwynddail y mynydd!

Felly rydym wedi meddwl am ddull arall o weithredu. Rydym wedi casglu ynghyd rhai o'r cynefinoedd arbennig yr ydych yn debygol o'u gweld. Ar gyfer pob cynefin, rydym wedi amlygu rhai planhigion ac anifeiliaid gwyllt nodweddiadol y byddwch o bosib yn eu gweld ac ambell i ddarganfyddiad prin i greu mwy o ddirgelwch. Wedi'r cwbl, mae hon yn Warchodfa Natur Genedlaethol!

Snowdon: let's get to the bottom of it

Googling 'Snowdon Wildlife' is one of those searches that doesn't really get you very far. It would be easy to get the impression that Snowdon is over-run by wild goats feasting on a carpet of Snowdon lily!

So we've taken a different approach. We've brought together some of the special habitats you are likely to see. For each habitat we've highlighted some characteristic wild plants and animals you might well encounter and some rare finds for added mystery. This is a National Nature Reserve after all!

Rhostir Heaths


A welwch chi? Can you spot?



Grug
Common heather
Calluna vulgaris



Ymerawdwr
Emperor moth
Saturnia pavonia



Cladonia Llychlyn
Reindeer lichen
Cladonia rangiferina

Llus Bilberry
Vaccinium myrtillus

Rhostir
Corlwyni megis grug a llus sy'n tyfu'n doreithiog yw nodweddiad allweddol rhostir. Gwelir y cynefin hwn ar lethrau isaf y mynyddoedd o amgylch yr Wyddfa.

Heaths
Dwarf shrubs like heather and bilberry growing in abundance are the key characteristic of heathland. You will find this habitat on the lower slopes of the Snowdon massif.

Darganfyddiad prin / Rare find




Merywen
Juniper
Juniperus communis

Llynnoedd mynyddig Mountain lakes

A welwch chi? Can you spot?



Beistonell ferllyn
Shoreweed
Littorella uniflora



Gwair merllyn
Quillwort
Isoetes lacustris



Rhwyfwr dŵr smotiog
Lesser water boatman
Corixa punctata

Bidoglys y dŵr Water lobelia
Lobelia dortmanna

Llynnoedd mynyddig
Mae llynnoedd yr Wyddfa yn disgleirio fel gemau ac mae eu dyfroedd glân yn cynnwys rhywogaethau sy'n hawdd eu methu os na wnewch chi edrych yn fwy manwl.

Mountain lakes
Snowdon's lakes glitter like jewels and their clean waters contain species which can be easily missed unless you take the time to look closely.

Sgrî Scree

A welwch chi? Can you spot?



Cnwp-fwsogl mawr
Fir club moss
Huperzia selago

Rhedynen bersli Parsley fern
Cryptogramma crispa

Sgrî
Darnau o graig yw sgrî sydd ag ychydig iawn o bridd; cafodd ei greu o ganlyniad i dywydd eithafol o rew a dadmer. Yn gartref i blanhigion a chennau bychan ac arbenigol, fe all bobl sy'n sathru'r sgrî beri niwed iddo.

Scree
Scree consists of rock fragments with very little soil and results from extreme freeze-thaw weathering. Home to tiny specialist plants and lichens, scree can be damaged by trampling feet.


Darganfyddiad prin / Rare find




Tywodlys y gwanwyn
Spring sandwort
Minuartia verna

Silffoedd a chilfachau Ledges & crevices

A welwch chi? Can you spot?




Coedfrwynen fawr
Great wood-rush
Luzula sylvatica



Pren y ddannoedd
Roseroot
Rhodiola rosea

Darganfyddiad prin / Rare find




Brwynddail y mynydd
Snowdon lily
Gagea serotina

Silffoedd a chilfachau
Lle mae craig, mae hefyd silffoedd a chilfachau! Mae dyddodion bach o bridd yn cronni ac mae planhigion sy'n sensitif i bori yn gallu ffynnu yma.


Ledges & crevices
Where there is rock, there are ledges and crevices! Tiny deposits of soil build up and plants which are sensitive to grazing flourish out of reach.

Ffynhonnau a chorsydd Mountain springs & bogs

A welwch chi? Can you spot?



Tormaen serennog
Starry saxifrage
Saxifraga stellaris



Gwâell ddu
Black darter dragonfly
Sympetrum danae



Gwlithlys
Sundew
Drosera rotundifolia

Llafn y bladur Bog asphodel
Narthecium ossifragum

Ffynhonnau a chorsydd
Mae dŵr yn magu bywyd - mae yma lawer o blanhigion, amffibiaid a phryfed cyffrous, o fwsoglau i lyffantod a gweision neidr.


Springs & bogs
Water breeds life - you'll find lots of exciting plants, amphibians and insects here, from mosses to frogs and dragonflies.

Glaswelltir Grasslands

A welwch chi? Can you spot?



Tinwen y garn
Wheatear
Oenanthe oenanthe



Brân goesgoch
Chough
Pyrrhocorax pyrrhocorax

Teim gwyllt Wild thyme
Thymus polytrichus

Glaswelltir
Mewn cynefin gwelltir mae gweiriau, hesg a pherlysiau'n ffynnu ac yn ddigon gwydn i wrthsefyll pori a hinsawdd garw'r mynydd.

Grasslands
Grassland habitats are where grasses, sedges and herbs prosper, tough enough to withstand grazing and the harsh mountain climate.

Yr Wyddfa:

Troediwch yn ysgafn;
edrychwch o'ch gwmpas;
gwnewch yn fawr o'r
mynydd.

Os welwch chi rywbeth ac os hoffech
gynorthwyo gwyddoniaeth: byddwch yn
ofalus, tynnwch lun a'i anfon i'r tîm yn
www.cofnod.org.uk

Snowdon

Tread lightly; be
observant; make the
most of the mountain.

If you spot something and would like to
help science: take care, take a photo and
send it to the team at www.cofnod.org.uk

Snowdon: The living mountain



Partneriaeth Yr Wyddfa
Snowdon Partnership